

Crynodeb Gwirio Ansawdd Uned Achosion Brys Plant, Ysbyty Treforys

Dyddiad y gweithgarwch: 29 Mehefin
2021

Dyddiad cyhoeddi: 3 Medi 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o'r Uned Achosion Brys i Blant (yr uned) yn Ysbyty Treforys fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Cafodd yr uned ei sefydlu ar ddechrau pandemig COVID-19 mewn ymgais i gynnig un pwynt mynediad ar wahân i blant a galluogi'r Adran Achosion Brys i ymdrin â'r cynnydd disgwylidig yn nifer y cleifion sy'n oedolion. Mae gan yr uned 11 o welyau, sy'n cynnwys un uned dibyniaeth uchel i blant sydd angen gofal mwy aciwt.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r Brif Nyrs, Addysgwyr Clinigol ac Ymgynghorydd Pediatrig ar 29 Mehefin 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i staff, cleifion ac ymwelwyr, a sut rydych yn sicrhau ei fod yn cynnal urddas cleifion? Sut y caiff hawliau cleifion eu cynnal?
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut rydych yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r uned yn effeithiol a bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod llif amserol o gleifion drwy'r uned? Mewn achosion lle nad

yw'r llif yn amserol, sut rydych yn ymateb i hynny?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr asesiadau risg/archwiliadau amgylcheddol diweddaraf
- Data ar nifer y digwyddiadau yn yr uned dros y tri mis diwethaf

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Sefydlwyd yr uned yn ddi-oed ym mis Mawrth 2020 mewn ymateb i'r cynnydd disgwylidig yn y galw yn yr ysbyty yn ystod y pandemig. Cyfunodd yr uned newydd ddyletswyddau Adran Achosion Brys Pediatrig ac Uned Asesu Pediatrig yr ysbyty yn un lleoliad ar gyfer pob plentyn 16 oed ac iau. Mae gan yr uned fynedfa ar wahân y mae modd ei chloi os oes angen, ond gellir ei chyrraedd o'r Adran Achosion Brys hefyd. Dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael eu trosglwyddo'n syth i ardal ddadebru'r Adran Achosion Brys mewn achos o argyfwng ac yn derbyn gofal mewn un o ddwy gilfan benodol ar gyfer achosion pediatrig.

Dywedodd y staff wrthym am y trefniadau sydd ar waith yn yr uned i helpu i ddiogelu'r cleifion a'r staff sydd mewn perygl o ddal COVID-19. Cafodd yr uned ei rhannu'n ardaloedd 'glas' ac ardaloedd 'coch' ar wahân. Mae'r ardal las yn cynnwys desg derbynfa, ystafell aros, ystafell frysbenneu a chilfan agored gyda phedwar gwely. Caiff gwely ei neilltuo i unrhyw glaf sy'n profi neu'n dangos unrhyw arwyddion neu symptomau COVID-19 yn yr ardal goch a chaiff ei drin fel achos positif posibl. Cafodd marciau eu gosod ar y llawr drwy'r uned, a chafodd yr ystafell aros yn yr ardal las ei rhannu'n adrannau ar wahân, yn unol â'r canllawiau cadw pellter cymdeithasol. Cafodd terfynau eu gosod ar nifer y bobl a oedd yn cael eu gadael i mewn i bob ystafell ar unrhyw adeg er mwyn annog y staff i gadw pellter cymdeithasol. Dywedwyd wrthym fod teganau wedi cael eu symud o'r ardal aros er mwyn osgoi croes-halogi. Yn lle hynny, mae gan bob ciwbicl flwch o deganau ar wahân, sy'n cael eu glanhau rhwng cleifion.

Dywedwyd wrthym fod archwiliad o'r Rhagofalon Rheoli Heintiau Safonol yn cael ei gynnal bob mis, sy'n cynnwys gwiriadau ar gyflwr cyffredinol amgylchedd yr uned. Gwelsom fod yr archwiliad diweddaraf wedi'i gynnal ym mis Mehefin 2021, ac ni nododd unrhyw faterion o

ran yr amgylchedd.

Rhoddodd y staff wybod i ni fod yr uned yn ymroi i sicrhau bod yr holl gleifion yn cael eu brysbennu o fewn 15 munud i gyrraedd lle bo'n bosibl. Caiff y cleifion eu monitro'n rheolaidd i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu drwy gydol eu harhosiad yn yr uned. Mae bwyd a byrbrydau ar gael i'r cleifion fel y bo angen, a hefyd boteli o ddŵr ers dechrau COVID-19.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, rhoddwyd cyfyngiadau ar ymweliadau yn ystod y pandemig. Dim ond un ymwelydd (rhiant) sydd wedi cael caniatâd i fod yn yr uned ar unrhyw adeg benodol; fodd bynnag, gall y rhieni gymryd eu tro i fod gyda'u plentyn. Dywedwyd wrthym fod y rhieni'n cael eu harchwilio am symptomau COVID-19 cyn cael caniatâd i fynd i mewn i'r uned, ac mae angen iddynt hwy, ynghyd â phlant 11 oed neu'n hŷn, wisgo masgiau drwy'r amser. Mae'r staff wedi parhau i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn amserol i deuluoedd a gofalwyr y cleifion dros y ffôn pan fo angen.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Darparwyd gwybodaeth i ni cyn y gwiriad ansawdd am ddigwyddiadau pediatrig yn yr Adran Achosion Brys Plant/ Uned Achosion Brys dros y tri mis diwethaf. Gwelsom fod y gwersi a ddysgwyd o un digwyddiad ym mis Mawrth 2021 wedi canolbwyntio ar bwysigrwydd arsylwadau rheolaidd, a rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y broses o olrhain arsylwadau yn weladwy, ac yn dryloyw ar gyfer yr adran gyfan. Yn dilyn y gwiriad ansawdd, edrychwyd ar sampl o gofnodion cleifion a oedd wedi bod yn yr uned ym mis Mehefin 2021. Gwelsom nad oedd yr arsylwadau'n cael eu cynnal yn ddigon aml o hyd. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod arsylwadau clinigol rheolaidd yn cael eu cynnal a'u dogfennu er mwyn sicrhau bod modd uwchgyfeirio unrhyw achos ar gam cynnar os bydd cyflwr y claf yn gwaethygu. At hynny, mae AGIC yn argymhell bod y staff yn cynnal archwiliadau rheolaidd ar gofnodion y cleifion er mwyn monitro cydymffurfiaeth barhaus â'r mater hwn.

Dywedwyd wrthym fod aelodau'r staff yn gwisgo bathodyn bach ar eu gwisg i ddangos i'r cleifion a'u perthnasau eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, cadarnhaodd y staff nad ydynt yn gofyn i'r cleifion am eu dewis iaith wrth iddynt gyrraedd yr uned. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'¹ er mwyn sicrhau y caiff y cleifion yr opsiwn i gyfathrebu yn eu dewis iaith.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

¹ Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. <https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy>

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisiau rheoli heintiau cyffredinol a pholisiau penodol i COVID-19
- Canlyniadau'r archwiliad hylendid dwylo diweddaraf
- Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom gopi o brotocol ar gyfer rheoli brigiadau ac achosion o haint ym maes gofal eilaidd a thrydyddol, a gafodd ei ddiweddarau a'i gyhoeddi gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i COVID-19. Roedd y ddogfen yn cynnwys dolenni i ganllawiau eraill ar atal a rheoli heintiau, megis y Llawlyfr Cenedlaethol ar Atal a Rheoli Heintiau, a ddatblygwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac adnoddau eraill yn ymwneud â COVID-19 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Dywedwyd wrthym fod diweddariadau rheolaidd ar COVID-19 wedi cael eu trafod â'r staff a hefyd wedi'u hanfon dros e-bost er mwyn sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Cawsom wybod am y trefniadau sydd ar waith yn yr uned i reoli'r cleifion yn ddiogel ac i reoli'r risg o haint. Caiff y staff eu neilltuo i weithio yn yr ardal las neu goch yn unig yn ystod pob sifft er mwyn osgoi'r risg o drosglwyddiad drwy'r uned. Mae cyfleusterau golchi dwylo ar gael ym mhob ardal ac mae biniau gwastraff clinigol wedi'u gosod y tu allan i bob ciwbicl er mwyn galluogi'r staff i gael gwared ar gyfarpar diogelu personol (PPE). Mae'r staff wedi cael prawf ffitio ar gyfer masgiau FFP3² i'w gwisgo wrth roi gofal i'r cleifion yr amheuir eu bod yn heintus yn yr ardal goch. Caiff pob darn o gyfarpar ei lanhau ac mae'r staff yn gwisgo set newydd o PPE rhwng cleifion.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o COVID-19 ac ar wisgo a diosg PPE yn ddiogel ar ddechrau COVID-19. Caiff cyflenwadau o PPE eu harchwilio bob dydd er mwyn sicrhau bod digon ar gael yn yr uned.

Dywedodd y staff wrthym fod profion llif unffordd wedi cael eu cynnig i'r staff a oedd yn dymuno profi eu hunain er mwyn helpu i adnabod unrhyw un sy'n heintus ond nad oes ganddo symptomau COVID-19. Mae disgwyl i unrhyw aelod o'r staff sy'n profi neu'n dangos symptomau aros adref a gall ond dychwelyd i'r gwaith ar ôl derbyn canlyniad prawf Adwaith Cadwynol Polymerasau³ negatif.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn monitro cydymffurfiaeth â gweithdrefnau rheoli heintiau drwy archwiliadau rheolaidd. Disgrifiodd y staff sut y mae'r rhain wedi nodi problemau yn y gorffennol o ran cydymffurfio â hylendid dwylo, a arweiniodd at drefnu hyfforddiant

² Masgiau wyneb sy'n hidlo yw masgiau wyneb FFP3. Cânt eu defnyddio mewn amgylchiadau penodol yn dilyn asesiad risg ac yn unol â chanllawiau ar atal a rheoli heintiau. Rhaid i'r staff gael prawf ffitio er mwyn sicrhau bod y masg yn ffitio'r wyneb yn iawn a'i fod yn gweithio mor effeithlon ag sy'n ofynnol.

³Prawf Adwaith Cadwynol Polymerasau ar gyfer COVID-19 yw'r prawf mwyaf cywir a dibynadwy a ddefnyddir i ddiagnosio pobl sydd wedi'u heintio â SARS-CoV-2 ar hyn o bryd, sef y coronafeirws sy'n achosi COVID-19.

ychwanegol i'r staff. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi gwella cydymffurfiaeth yn sylweddol ymhlith y staff sy'n gweithio yn yr uned. Gwelsom fod yr archwiliad Rhagofalon Atal a Rheoli Heintiau Safonol diweddaraf yn cynnwys gwiriadau ar hylendid dwylo, defnydd priodol o PPE a chael gwared ar wastraff, a nodwyd nad oedd wedi nodi unrhyw faterion.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom mai 62 y cant oedd y gyfradd cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol ar atal a rheoli heintiau ar gyfer aelodau o'r staff sy'n gweithio yn yr uned. O ystyried y problemau blaenorol a nodwyd gan y staff yn yr uned o ran cydymffurfiaeth wael â hylendid dwylo, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio'n llawn â'r hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau fel mater o flaenoriaeth.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Data ar achosion o salwch ymhlith y staff a swyddi gwag
- Y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer hyfforddiant gorfodol
- Y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADRau)

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym am y trefniadau a roddwyd ar waith yn yr uned i helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Mae'r uned yn cael ei staffio gan ddwy nyrs gofrestredig am 24 awr y dydd, un wedi'i neilltuo i'r ardal las a'r llall i'r ardal goch. Mae sifft gyda'r hwyr rhwng 15:00 a 03.30 o'r gloch wedi'i chyflwyno i'r rota hefyd, lle caiff nyrs gofrestredig ychwanegol ei neilltuo i'r uned i gymryd cyfrifoldeb am yr holl waith brysbennu cleifion. Mae dau feddyg ymgynghorol ym maes meddyginiaeth frys bediatrig ar gael yn yr uned hefyd.

Dywedodd y staff wrthym fod y rotas yn cael eu datblygu chwe wythnos ymlaen llaw drwy ddefnyddio 'Healthroster', sef adnodd electronig sy'n ystyried dewisiadau gweithio'r staff ac absenoldebau staff fel gwyliau neu salwch. Bydd yr uwch-reolwyr yn craffu ar y rotas cyn iddynt gael eu cymeradwyo. Dywedwyd wrthym fod y staff banc ac asiantaeth sydd â phrofiad o weithio mewn adran achosion brys wedi'u defnyddio i lenwi unrhyw sifftiau gwag. Mae'r un aelodau o'r staff wedi'u neilltuo lle y bo'n bosibl er mwyn helpu i gynnig parhad o fewn y tîm nyrsio.

Gwnaethom siarad am y cymorth a gynigir i'r staff ers dechrau COVID-19. Mae'r staff wedi cwblhau asesiadau risg COVID-19 er mwyn helpu i ddiogelu iechyd a lles aelodau o'r staff a all wynebu mwy o risg o ddal yr haint a/neu a allai gael canlyniad andwyol pe baent yn dal yr haint. Mae ymarferwyr Rheoli'r Risg o Drawma⁴ (TRiM) wedi bod ar gael i'r staff y bu angen cymorth arnynt drwy gydol y pandemig.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Yn ystod ein hadolygiad o'r ddogfennaeth a gyflwynwyd i ni cyn y gwiriad ansawdd, nodwyd achosion lle'r oedd canrannau'r cyfraddau cwblhau presennol ar gyfer hyfforddiant gorfodol gan y staff yn yr uned yn isel. Mae AGIC yn ymwybodol o'r heriau a wynebwr gan leoliadau gofal iechyd i sicrhau bod gofynion hyfforddiant y staff yn cael eu bodloni yn ystod COVID-19. Fodd bynnag, dylai'r bwrdd iechyd ystyried pob opsiwn er mwyn mynd i'r afael â'r risg nad yw'r staff yn cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf a chyflwyno tystiolaeth i AGIC o fewn tri mis bod y gyfradd gydymffurfio wedi gwella.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod yr Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad yn hwyr ar gyfer rhai o'r aelodau staff a oedd yn gweithio yn yr uned. Rhaid i'r gwasanaeth wella ei gydymffurfiaeth barhaus ag Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu y staff, a darparu tystiolaeth i AGIC o fewn tri mis i ddangos bod pob adolygiad hwyr wedi'i gwblhau.

Dywedwyd wrthym fod yr uned yn cael ei staffio gan ddwy nyrs gofrestrdig drwy'r amser, gydag o leiaf un nyrs bediatrig ar bob sifft. Mae'r canllawiau a ddatblygwyd gan y Pwyllgor Rhyng-golegol ar Safonau i Blant a Phobl Ifanc mewn Lleoliadau Gofal Brys⁵ yn nodi bod yn rhaid i bob adran achosion brys sy'n trin plant sicrhau bod dwy nyrs bediatrig gofrestrdig ar gael. Gan mai'r uned yw'r prif bwynt mynediad i blant, ni chawsom sicrwydd felly fod y safon hon yn cael ei chyrraedd. Ymdriniwyd â'n pryderon o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Golygai hyn ein bod wedi ysgrifennu i'r bwrdd iechyd ar unwaith yn dilyn y gwiriad ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder.

Fel rhan o'r gwiriad ansawdd, edrychwyd ar y trefniadau sydd ar waith i reoli a thrin plant yn ddiogel mewn argyfwng, fel methiant resbiradol neu gylchredol ac ataliad ar y galon. Dywedwyd wrthym fod cilfan ddadebru benodol i gleifion pediatrig ar gael yn yr Adran Achosion Brys ac y gallai'r staff o'r uned a'r Adran Achosion Brys gynorthwyo wrth roi triniaeth frys. Edrychwyd ar lefelau cydymffurfiaeth staff cymwysedig sy'n gweithio yn yr uned a'r Adran Achosion Brys ar gyfer hyfforddiant dadebru perthnasol a chanfuwyd bod y lefelau cydymffurfiaeth â Chynnal Bywyd Brys Pediatrig a Chynnal Bywyd Uwch Pediatrig Ewropeaidd yn isel. Mae'r ddogfen *Standards for Children and Young People in Emergency Care Settings* yn nodi bod yn rhaid i ddwy nyrs bediatrig o leiaf fesul sifft mewn adrannau achosion brys plant penodol fod wedi cael hyfforddiant trawma ac argyfwng ôl-gofrestru cydnabyddedig. Gwnaethom ofyn am dystiolaeth o rotas staff blaenorol ar gyfer yr uned a'r Adran Achosion

⁴ Model rheoli'r risg o drawma yw TRiM sy'n cael ei ddefnyddio gan y bwrdd iechyd i helpu i nodi ac ymateb i arwyddion trawma cynnar. Mae wedi'i anelu'n bennaf at staff y rheng flaen gydag arweinwyr clinigol a staff goruchwyllo wedi'u hyfforddi'n ymarferwyr.

⁵ ['Facing the Future: Standards for children in emergency care settings'](#)

Brys a chanfuwyd sawl achos lle nad oedd y safonau'n cael eu cyrraedd. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth hefyd o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol.

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos fod pob aelod o'r staff yn yr uned wedi cwblhau ei hyfforddiant diogelu plant lefel tri. Fodd bynnag, gwelsom fod cydymffurfiaeth ar gyfer yr un hyfforddiant yn isel ymhlith y staff yn yr Adran Achosion Brys. Yn sgil newid y staff rhwng yr uned a'r Adran Achosion Brys, ni chawsom sicrwydd y byddai lefel briodol o wybodaeth a phrofiad ymhlith y staff ar bob sifft yn yr uned i nodi pryderon yn briodol mewn perthynas ag unrhyw faterion diogelu neu amddiffyn plant. Rhoesom wybod i'r bwrdd iechyd am ein pryderon ar y mater hwn drwy'n proses sicrwydd uniongyrchol.

Rhoddir manylion y camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd drwy ein proses sicrwydd uniongyrchol yn y cynllun gwella ar ddiwedd y ddogfen hon.

Llif cleifion

Ar gyfer Unedau Asesu, teimlai AGIC ei bod yn bwysig ystyried llif y cleifion drwy'r adran. Nod hyn yw sicrhau bod cleifion yn cael eu hasesu, eu derbyn a'u rhyddhau mewn modd amserol.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu brysbennu o fewn 15 munud i gyrraedd lle bynnag y bo modd a bod meddygon ymgynghorol a gweithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol arbenigol wedi parhau i fod ar gael fel y bo'n ofynnol. Cadarnhaodd y staff fod yr uned yn ymrwymedig i gyrraedd y targedau perfformiad cenedlaethol bod cleifion yn treulio llai na phedair awr mewn adrannau achosion brys o'r adeg y maent yn cyrraedd hyd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau. Rhoddodd y staff wybod i ni fod nifer y cleifion a welwyd yn yr uned yn is na'r arfer yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, mae'r uned wedi mynd yn llawer prysurach dros y misoedd diwethaf ac mae'r amserau aros wedi dechrau mynd yn hwy.

Cawsom gopi o'r polisi cyfredol a amlinellodd y gweithdrefnau sydd ar waith i uwchgyfeirio unrhyw oedi cyn asesu cleifion a allai effeithio ar y llif cleifion. Disgrifiodd y staff y camau y byddent yn eu cymryd i uwchgyfeirio unrhyw faterion y nodwyd gennym eu bod yn unol â'r polisi. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wrthi'n datblygu polisi uwchgyfeirio llif cleifion newydd a fydd yn cael ei roi ar waith gan y gwasanaethau gofal iechyd ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd unwaith y bydd wedi cytuno arno'n ffurfiol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Treforys
Ward: Uned Achosion Brys Plant
Dyddiad y gweithgarwch: 29 Mehefin 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	<p>GWELLIANT AR UNWAITH:</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC o'r camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">Gwella cydymffurfedd ymhlith staff cymwysedig sy'n gweithio yn sefydliad yr Uned Achosion Brys i Blant (CEU) a'r Adran Achosion Brys ar gyfer Triniaeth Cynnal Uniongyrchol Pediatrig (PILS) a Thriniaeth Cynnal Bywyd Uwch Pediatrig Ewropeaidd (EPLS) yn ddi-oed, a rhoi mecanweithiau ar waith i sicrhau bod cydymffurfedd yn cael ei ddiweddarau a'i adolygu gan	Safonau Iechyd a Gofal 2.1 a 3.1	<p>Bydd uwch dîm yr Adran Achosion Brys yn darparu cynllun i alluogi staff i fynychu pob sesiwn hyfforddiant angenrheidiol a phriodol yn ddi-dor. Caiff hyn ei gynllunio ymlaen llaw a'i amserlennu fel absenoldeb astudio.</p> <p>Mae'r hyfforddiant ar Driniaeth Cynnal Bywyd Uniongyrchol Pediatrig sydd ar gael rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2021 wedi'i archebu a bydd 11 o nyrsys yn mynychu.</p> <p>Caiff hyfforddiant dadebru ei drefnu o fis Ionawr 2022 ymlaen i sicrhau</p>	<p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth / Dirprwy Bennaeth Nyrsio ECHO</p> <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth / Dirprwy Bennaeth Nyrsio ECHO</p> <p>Dirprwy Bennaeth</p>	<p>Cwblhawyd Gorffennaf 2021</p> <p>Cwblhawyd Gorffennaf 2021</p> <p>Hydref 2021</p>

<p>reolwyr.</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod yr Uned Achosion Brys i Blant (CEU) yn bodloni'r gofynion hyfforddiant a bennwyd yn y safonau ar gyfer plant mewn lleoliadau gofal brys. 		<p>cydymffurfedd ymhlith staff cymwysedig sy'n gweithio yn sefydliad yr Uned Achosion Brys i Blant a'r Uned Achosion Brys ar gyfer Triniaeth Cynnal Bywyd Uniongyrchol Pediatrig a Thriniaeth Cynnal Bywyd Uwch Pediatrig Ewropeaidd.</p> <p>Caiff cyllid ei gytuno gan y Grŵp Gwasanaeth a'r Bwrdd lechyd yn dilyn asesiad o gostau ôl-lenwi'r hyfforddiant hwn.</p> <p>Cyflwynir Triniaeth Cynnal Bywyd Uwch Pediatrig Ewropeaidd deirgwaith y flwyddyn - mynychodd tri ymgeisydd meddygol yr Adran Achosion Brys y cwrs a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2021. Bydd y gwasanaeth yn sicrhau defnydd cyson o'r hyfforddiant Triniaeth Cynnal Bywyd Uwch Pediatrig Ewropeaidd sydd ar gael. Archebir lleoedd ar gyfer pum aelod o staff o'r Adran Achosion Brys ar gwrs mis Tachwedd 2021.</p> <p>Os na all darparwr hyfforddiant lleol fodloni'r galw am hyfforddiant Triniaeth Cynnal Bywyd Uwch Pediatrig Ewropeaidd / Triniaeth Cynnal Bywyd Pediatrig Uwch ar gyfer y flwyddyn o fis Ionawr 2022 ymlaen. Bydd Bwrdd lechyd Prifysgol Bae Abertawe yn ceisio comisiynu darparwr hyfforddiant allanol.</p> <p>Darperir hyfforddiant Triniaeth Cynnal</p>	<p>Nyrsio ECHO</p> <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth / Dirprwy Bennaeth Nyrsio ECHO</p> <p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio ECHO / Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Y Dirprwy</p>	<p></p> <p>Awst 2021</p> <p>Awst 2021</p> <p>Hydref 2021</p> <p>Awst 2021</p>
--	--	--	---	---

		<p>Bywyd Brys (ELS) ar y safle bob mis, ac mae'n cwmpasu hyfforddiant Triniaeth Cynnal Bywyd Sylfaenol i Oedolion a Thriniaeth Cynnal Bywyd Sylfaenol Pediatrig.</p> <p>Disgwylir i'r Adran Achosion Brys ddefnyddio'r adnodd hwn yn llawn a sicrhau bod lleoedd ar gyfer yr holl staff y mae angen y lefel hon o hyfforddiant arnynt yn cael eu harchebu fel rhan o'r cynllun gweithredu hyfforddiant (mae lleoedd ar gyfer 16 aelod o staff wedi'u harchebu rhwng mis Mehefin a mis Medi 2021).</p> <p>Bydd y gwasanaeth yn gosod cynllun adfer i sicrhau bod yr holl staff newydd a'r rhai y mae eu cydymffurfedd wedi dod i ben yn cael hyfforddiant Triniaeth Cynnal Bywyd Sylfaenol mewn babanod a phlant a bydd uwch dîm yr Adran Achosion Brys yn monitro cydymffurfedd yn fisol fel rhan o'u cyfarfod llywodraethu misol.</p>	<p>Bennaeth Nyrso</p> <p>Y Dirprwy Bennaeth Nyrso</p>	<p>Awst 2021</p>
2	<p>GWELLIANT AR UNWAITH:</p> <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC o'r camau a gymerir i sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod yr Uned Achosion Brys i Blant yn bodloni'r gofynion gweithlu a bennwyd yn y safonau ar gyfer plant mewn lleoliadau gofal brys. <p>Llythyr pryder ychwanegol, dyddiedig 16 Gorffennaf 2021:</p>	<p>Bydd yr Adran Achosion Brys yn datblygu rhaglen o ddigwyddiadau dysgu blynyddol (gan gynnwys ôl-drafodaethau poeth / digwyddiadau dysgu o ran diogelu) yn ymwneud â Meddygaeth Frys Pediatrig a fydd ar gael i bawb.</p> <p>Caiff system sy'n hysbysu staff am ddigwyddiadau hyfforddi (manteisgar neu fel arall) ei chreu o fewn yr adran drwy'r Tîm Datblygu Ymarfer er mwyn</p>	<p>Yr Arweinydd Clinigol / Pennaeth Nyrso</p> <p>Y Dirprwy Bennaeth Nyrso</p>	<p>Awst 2021</p> <p>Hydref 2021</p>

<p>Mae ein pryderon penodol yn hyn o beth fel a ganlyn:</p> <p>1. Un o'r camau i'w cymryd mewn ymateb i'r gwelliannau uniongyrchol a nodwyd oedd y caiff yr holl amserlenni meddygol a nyrsio ar gyfer yr Uned Achosion Brys i Blant eu hadolygu mewn perthynas â nifer y nyrsys pediatrig hyfforddedig a phresenoldeb aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant Triniaeth Cynnal Bywyd Uwch Pediatrig Ewropeaidd neu Driniaeth Cynnal Bywyd Pediatrig Uwch. Gwnaethom nodi y gwnaed cais ar gyfer chwech o raddedigion nyrsio pediatrig hyfforddedig ar gyfer mis Medi 2021, a bod lleoedd ar gyfer pum aelod o staff yr Adran Achosion Brys wedi'u harchebu ar gyfer hyfforddiant Triniaeth Cynnal Bywyd Uwch Pediatrig Ewropeaidd ym mis Tachwedd 2021.</p> <p>Rydym yn ceisio rhagor o eglurder ynghylch a oes gan yr Uned Achosion Brys i Blant yr adnoddau a'r sgiliau Cynnal Bywyd Uwch Pediatrig Ewropeaidd / Cynnal Bywyd Pediatrig Uwch ar hyn o bryd i sicrhau y bydd y ddwy safon hynny ar gyfer plant mewn lleoliadau brys bellach yn cael eu bodloni ar gyfer pob shift wrth symud ymlaen yn yr Uned Achosion Brys i Blant. Os nac oes, mae angen mwy o sicrwydd ynghylch y mesurau a fydd yn cael eu rhoi ar waith i liniaru'r risgiau i gleifion cyn bod yr Uned Achosion Brys i Blant fod mewn sefyllfa i fodloni'r ddwy safon.</p> <p>2. Ymhellach, wrth adolygu cyflwyniad y dystiolaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani, gwelsom fod cydymffurfedd mewn perthynas â</p>	<p>hybu lefelau uchel o gydymffurfedd hyfforddiant.</p> <p>Bydd y Cyfarwyddwr Clinigol yn sicrhau bod yr amser ar gyfer cefnogi gweithgareddau proffesiynol a ddyrennir i'r meddyg ymgynghorol ym maes Meddygaeth Frys Pediatrig yn ddigonol yn ei gynllun swydd i hwyluso'i ddatblygiad ei hun a datblygiad yr hyfforddeion. (Cynhelir adolygiad o'r cynllun swydd fel rhan o'r broses cynllunio swyddi).</p> <p>Cyn i'r holl amserlenni meddygol a nyrsio gael eu cymeradwyo, bydd yr Uned Achosion Brys i Blant a phrif amserlenni'r Adran Achosion Brys yn cael eu gwirio i sicrhau bod nifer y nyrsys hyfforddedig pediatrig ar gael ar gyfer pob shift a bod aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant Triniaeth Cynnal Bywyd Uwch Pediatrig Ewropeaidd neu Driniaeth Cynnal Bywyd Pediatrig Uwch yn bresennol ar gyfer pob sifft.</p> <p>Caiff rheolaeth lawn o amserlenni'r nyrsys ei throsglwyddo o'r Gwasanaeth Pediatrig i'r Adran Achosion Brys er mwyn sicrhau cydymffurfedd â safonau gofal brys ar draws yr adran gyfan. Yn benodol, caiff dwy nyrs plant fesul shift eu darparu a bydd yr aelodau hyn o staff yn derbyn hyfforddiant Triniaeth Cynnal Bywyd Uniongyrchol Pediatrig o leiaf.</p>	<p>Y Cyfarwyddwr Clinigol a Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Y Dirprwy Bennaeth Nyrsio / Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio Grŵp</p>	<p>Bob blwyddyn</p> <p>Gorffennaf 2021</p> <p>Gorffennaf 2021</p>
---	---	---	---

<p>chymhwyster diogelu plant ar Lefel 3 ymhlith staff meddygol yn yr Adran Achosion Brys yn 6%, ac yn 38% yn achos staff anfeddygol yn yr Adran Achosion Brys.</p> <p>O ystyried bod y lefelau cydymffurfedd hyn yn isel, yn enwedig yn achos staff meddygol, a'r ffaith bod staff yn cylchdroi rhwng yr Adran Achosion Brys a'r Uned Achosion Brys i Blant, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd ynghylch sut mae'n sicrhau bod lefel priodol o wybodaeth a phrofiad ymhlith y staff ar bob sifft i nodi pryderon ynghylch unrhyw faterion diogelu neu amddiffyn plant yn briodol.</p>		<p>Roedd data hyfforddiant ar gyfer staff meddygol yr Adran Achosion Brys a gyflwynwyd fel rhan o'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani ar 1 Gorffennaf ac a gafodd ei chyflwyno i AGIC ar 7 Gorffennaf 2021 yn dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod gan 95% o'r gweithlu ymgynghorol statws darparwr neu hyfforddwr Triniaeth Cynnal Bywyd Uwch Pediatrig Ewropeaidd (EPLS) / Triniaeth Cynnal Bywyd Pediatrig Uwch, neu maent wedi cael yr hyfforddiant hwn yn y ddiweddar. • Roedd 80% o'r meddygon ar raddau canol yn cydymffurfio <p>O ganlyniad, mae nifer y staff meddygol o'r Adran Achosion Brys sydd wedi cael hyfforddiant Triniaeth Cynnal Bywyd Uwch Pediatrig Ewropeaidd / Triniaeth Cynnal Bywyd Pediatrig Uwch yn cydymffurfio â'r safonau.</p> <p>Bydd yr Adran Achosion Brys yn sicrhau bod amserlen sy'n cydymffurfio yn cynnwys staff sydd wedi cael hyfforddiant Triniaeth Cynnal Bywyd Pediatrig Ewropeaidd / Triniaeth Cynnal Bywyd Pediatrig Uwch ar ddyletswydd bob amser.</p> <p>Ar hyn o bryd mae 27 o nyrsys band</p>	<p>Cydgysylltydd Amserlen Feddygol yr Uned Achosion Brys</p> <p>Cydgysylltydd Amserlen Feddygol yr Uned Achosion Brys</p> <p>Metron yr</p>	<p>Cwblhawyd Gorffennaf 2021</p> <p>Awst 2021</p> <p>Cwblhawyd</p>
--	--	---	--	--

	<p>6/7 o fewn y sefydliad nyrsio'r Adran Achosion Brys. Mae o leiaf dwy nyrs band 6 ynghyd ag un rheolwr band 7 yn gweithio yn yr Adran Achosion Brys 24/7. Drwy sicrhau bod POB aelod o staff ar fandiau 6 a 7 wedi'u hyfforddi, bydd yr adran yn cynnal o leiaf un aelod o staff â sgiliau Cynnal Bywyd Uwch Pediatrig Ewropeaidd / Cynnal Bywyd Pediatrig Uwch fel sy'n ofynnol yn safon y gofal i blant mewn lleoliadau brys.</p>	Adran Achosion Brys	20 Gorffennaf 2021
	<p>Bydd lleoedd i bum aelod o staff band 6/7 yn cael eu harchebu ar y cwrs hyfforddiant Triniaeth Cynnal Bywyd Uwch Pediatrig Ewropeaidd (EPLS) nesaf sydd ar gael (mis Tachwedd 2021)</p>	Metron yr Adran Achosion Brys	Gorffennaf 2021
	<p>Caiff hyfforddiant Triniaeth Cynnal Bywyd Uwch Pediatrig Ewropeaidd (EPLS) allanol ychwanegol ei nodi a'i archebu, gyda chostau ychwanegol.</p>	Nyrs Datblygu Ymarfer yr Uned Achosion Brys	Medi 2021
	<p>Bydd y Dirprwy Bennaeth Nyrsio yn cynnal dadansoddiad o fylchau yn erbyn y safonau llawn ac yn datblygu cynllun gwella manylach er mwyn cydymffurfio felly â safon yr Adran Achosion Brys sy'n pennu bod dwy nyrs plant gofrestrdig ar ddyletswydd ynddi.</p>	Y Dirprwy Bennaeth Nyrsio	30 Awst 2021
	<p>Caiff cynllun ar gyfer darparu hyfforddiant diogelu plant ar Lefel 3 i staff meddygol ei roi ar waith, y bydd</p>	Yr Arweinydd Clinigol / y Dirprwy Bennaeth Nyrsio	Medi 2021

		<p>yn cynnwys y camau gweithredu a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyfforddiant diogelu i'w gynnwys mewn sesiynau hyfforddiant gorfodol a gydlynir gan yr Addysgwr Clinigol. • Bydd staff meddygol yn defnyddio'u hamser ar gyfer cefnogi gweithgareddau proffesiynol i sicrhau bod yr holl hyfforddiant gorfodol yn cael ei gwblhau, gan gynnwys hyfforddiant diogelu ar Lefel 3. • Caiff sesiynau hyfforddiant misol ar ddyddiau Gwener eu defnyddio i ganolbwyntio ar ofynion diogelu ar Lefel 3. • Fel rhan o'r mesurau lliniaru presennol ynghylch diogelu plant ar Lefel 3, mae: adolygiadau gan gymheiriaid yn ymwneud â hyfforddiant diogelu ar Lefel 3 a gynhelir yn wythnosol, y mae'r presenoldeb ynddynt yn dda, ac mae'r meddygon iau yn mynychu hyfforddiant ar ddydd Mercher lle mae'r holl hyfforddiant diogelu gorfodol ar Lefel 3. • Sesiwn ddiogelu ychwanegol bob mis wedi'i drefnu mewn hyfforddiant i uwchswyddogion preswyl i gwmpasu diogelu ar Lefel 3. 	<p>Nyrs Datblygu Ymarfer yr Uned Achosion Brys</p> <p>Cyfarwyddwr Clinigol yr Uned Achosion Brys</p> <p>Y Nyrs Glinigol Arbenigol ar Ddiogelu / y Nyrs Datblygu Ymarfer Diogelu</p> <p>Y Nyrs Glinigol Arbenigol ar Ddiogelu / y Nyrs Datblygu Ymarfer Diogelu</p> <p>Y Nyrs Glinigol Arbenigol ar Diogelu / yr Ymgynghorydd ar Feddygaeth Frys Peditrig</p>	<p>Awst 2021</p> <p>Medi 2021</p> <p>Medi 2021</p> <p>Awst 2021</p> <p>Medi 2021</p>
--	--	--	--	--

	<p>Caiff cynllun hyfforddiant diogelu plant ar Lefel 3 ar gyfer staff nyrsio ei roi ar waith. (Ar hyn o bryd mae'r cydymffurfedd ar gyfer diogelu ar Lefel 3 Diogelu Plant yn yr Adran Achosion Brys yn 41%.)</p>	Y Nyrs Glinigol Arbenigol ar Ddiogelu a'r Nyrs Datblygu Ymarfer Diogelu	Awst 2021
	<p>Archebwyd lleoedd ar gyrsiau hyfforddiant ar gyfer 33% ychwanegol o staff cyn mis Ionawr 2022 - pennwyd chydymffurfedd arfaethedig o 83% erbyn mis Ionawr 2022.</p>	Nyrs Datblygu Ymarfer yr Uned Achosion Brys	Rhagfyr 2021
	<p>Mae Hwb Diogelu yr Adran Achosion Brys (dan arweiniad nyrs glinigol arbenigol) eisoes wedi'i sefydlu i gefnogi ystod lawn o faterion diogelu, gan gynnwys plant, oedolion, a phobl sy'n defnyddio'r Adran Achosion Brys yn rheolaidd.</p> <p>Mae nyrs arbenigol ym maes diogelu plant, arbenigwr ym maes nyrsio oedolion, ac arbenigwr ym maes trais a cham-drin rhywiol wedi'u lleoli yn Hwb Diogelu yr Adran Achosion Brys. Mae cyngor a chefnogaeth arbenigol ar gael o'r Hwb o ddydd Llun i ddydd Gwener a chynigir sesiynau goruchwyliaeth i staff yn wythnosol. Mae'r staff yn yr Hwb yn cynnal cysylltiadau cryf â thîm diogelu corfforaethol Prifysgol Bae Abertawe, asiantaethau statudol ac asiantaethau'r trydydd sector, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn modd amserol a chyfrinachol sy'n ei gwneud yn bosibl i</p>	Y Nyrs Glinigol Arbenigol ar Ddiogelu	Ar waith ym mis Gorffennaf 2021

			<p>fesurau diogelu effeithiol ac effeithlon gael eu gweithredu ar gyfer pobl sy'n agored i niwed sy'n mynychu'r Adran Achosion Brys.</p> <p>Er mwyn lliniaru'r effaith y mae ffactor y swyddi gwag presennol yn ei chael ar ein gallu i ddarparu amserlen ddyletswyddau sy'n cydymffurfio (yn unol â safonau ar gyfer plant mewn gofal brys) bydd cynllun gweithlu a recriwtio yn cael ei ddrafftio a'i roi ar waith. Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn gysylltiedig â chynllun gweithredu blaenorol AGIC ar gyfer yr Adran Achosion Brys.</p> <p>Mae'r gwasanaeth wedi gofyn am chwe phenodiad o'r Cynllun Symleiddio i Fyfyrywyr GIG Cymru ar gyfer graddedigion nyrsio pediatrig hyfforddedig ym mis Medi 2021.</p>	<p>Pennaeth Meddygaeth Nyrsio ac ECHO</p> <p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio ECHO</p>	<p>Tachwedd 2021</p> <p>Medi 2021</p>
3	<p>Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod arsylwadau clinigol rheolaidd yn cael eu cynnal a'u dogfennu er mwyn sicrhau bod modd uwchgyfeirio unrhyw achos ar gam cynnar os bydd cyflwr y claf yn gwaethygu. At hynny, mae'n rhaid i'r staff gynnal archwiliadau rheolaidd o gofnodion y cleifion er mwyn monitro cydymffurfiaeth barhaus â'r mater hwn.</p>	<p>Safonau lechyd a Gofal 2.1 a 3.1</p>	<p>Bydd archwiliadau'n cael eu cynnal a fydd yn weithredol o ddydd Llun 16/8/21. Mae'r digwyddiad lansio wedi'i gwblhau a chytunwyd ar y templed ar gyfer archwiliad wythnosol.</p>	<p>Y Dirprwy Bennaeth Nyrsio ECHO - R Davies. Y Brif Nyrs L Scannell.</p>	<p>Cwblhawyd Awst 2021</p>
4	<p>Mae'n rhaid i'r gwasanaeth helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol' i sicrhau y caiff y cleifion yr opsiwn i gyfathrebu yn eu dewis iaith.</p>		<p>Fel rhan o'r broses frysbenno, bydd trafodaeth gychwynnol ar ddewis iaith a dull cyfathrebu. Bydd posteri sy'n rhoi gwybodaeth mewn perthynas â'r Gymraeg yn cael eu harddangos. Bydd</p>	<p>Y Dirprwy Bennaeth Nyrsio ECHO, R Davies a'r Brif Nyrs Louise</p>	<p>Cwblhawyd Awst 2021</p>

			pob aelod o'r staff yn gwybod sut i gael gafael ar y llinell iaith. Bydd y Clerc Integredig sy'n ymgymryd â chwrs iaith arwyddion Prydain yn cefnogi'r adran.	Scannell, Uned Achosion Brys Plant	
5	Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio'n llawn â'r hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau fel mater o flaenoriaeth.		<p>Hyfforddiant Gorfodol y Bwrdd Iechyd Atal a Rheoli Heintiau (3 blynedd) - 95% yn erbyn targed y Bwrdd Iechyd o 100%</p> <p>Hanfodion Gofal - Dangosyddion Diogelwch Hylendid Dwylo (cyffredinolrwydd pwynt misol) - 77% yn erbyn targed y Bwrdd Iechyd o 85%</p> <p>Erbyn diwedd mis Medi, rhagwelwn y bydd 100% o'r holl staff mewn swyddi ac mewn gwaith yn cydymffurfio â'r ddau ddangosydd. Mae hyn yn cyfateb i 85% o'r holl staff sydd mewn swyddi (gan gynnwys y rhai sydd mewn swyddi ond nad ydynt yn y gwaith)</p>	Y Dirprwy Bennaeth Nyrsio ECHO - R Davies.	Medi 2021
6	Rhaid i'r gwasanaeth wella ei gydymffurfiaeth gyffredinol â hyfforddiant gorfodol y staff, a chyflwyno tystiolaeth i AGIC o fewn tri mis fod cydymffurfiaeth wedi gwella.		<p>Mae cynllun gwella ar waith a fydd yn cyflawni'r canlynol: cydymffurfiaeth o 77% yn erbyn gofynion hyfforddiant gorfodol BIPBA erbyn mis Medi 2021 a chydymffurfiaeth o 85% erbyn mis Rhagfyr 2021.</p> <p>Gofynion Hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r Safonau Gofal i Blant mewn Lleoliadau Gofal Iechyd (Mehfin 2018)</p>	Y Dirprwy Bennaeth Nyrsio ECHO - R Davies	Medi 2021 Rhagfyr 2021

			<p>Mae'r gwaith o gyflawni'r cynllun gwella hyfforddiant (fel y'i nodwyd yn y 'cynllun gwella uniongyrchol' a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd ar 22/07/2021) i gefnogi;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal Bywyd Brys Pediatrig (PILS) • Cynnal Bywyd Uwch Pediatrig Ewropeaidd (EPLS) <p>yn mynd rhagddo, ac mae lleoedd wedi'u cadw i aelodau'r staff ar sesiynau hyfforddiant ym mis Medi a hyd at fis Rhagfyr 2021.</p> <p>Mae adnoddau hyfforddiant ychwanegol yn cael eu ceisio i gefnogi gofynion uniongyrchol ar ôl gohirio hyfforddiant ar ôl COVID-19 ac i gefnogi mynediad hirdymor i'r cynllun hyfforddiant.</p>		Hydref 2021
7	Rhaid i'r gwasanaeth wella ei gydymffurfiaeth barhaus ag Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu staff, a darparu tystiolaeth i AGIC o fewn tri mis i ddangos bod pob adolygiad hwyr wedi'i gwblhau.		Mae holl (100%) staff yr Uned Achosion Brys Plant wedi ymgymryd â PADR yn ystod y 12 mis diwethaf.	Y Dirprwy Bennaeth Nyrsio ECHO - R Davies.	Awst 2021

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Mark Madams, Cyfarwyddwr Nyrsio Grŵp a Carol Doggett, Pennaeth Nyrsio ar gyfer Meddyginiaeth a Gofal Brys (ar ran Cyfarwyddwr Nyrsio'r Uned)

Dyddiad: 21/07/2021 a 20/08/2021